# GEM UK: Adroddiad Cymru 2018

Karen Bonner, Mark Hart, Laura Heery, Neha Prashar a Jonathan Levie

Mae'r Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang (GEM) yn brosiect rhyngwladol sy'n cynnwys 49 economi yn 2018 a'i nod yw ceisio darparu gwybodaeth am dirwedd entrepreneuraidd gwahanol wledydd. Mae sawl astudiaeth wedi dangos bod entrepreneuriaeth yn sbardun pwysig ar gyfer twf economaidd, cystadleurwydd a chreu swyddi. Defnyddir canlyniadau dadansoddiad data GEM fel dangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol ledled y byd. Maint y sampl yng Nghymru yn 2018 oedd 2,991 o oedolion dros 18 oed ar ôl i Lywodraeth Cymru ychwanegu at sampl genedlaethol y DU.

## Prif Ganfyddiadau

- **Y gyfradd ar gyfer entrepreneuriaeth cam cynnar (TEA) yng Nghymru ar gyfer 2018 oedd 6.9 y cant. Nid oedd hyn yn sylweddol wahanol i gyfradd 2017 yng Nghymru nac amcangyfrifon 2018 o 8.1 y cant ar gyfer Lloegr a 7.9 y cant ar gyfer y DU i gyd.**
- **Mae gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar yn cael ei ysgogi gan resymau cyfle; roedd TEA a sbardunwyd gan gyfle yn 5.5 y cant yng Nghymru yn 2018 a TEA a sbardunwyd gan reidrwydd yn 1.3 y cant. Mae'r ddwy gyfradd yn debyg i'r rhai a welwyd yn 2017.**
- **Roedd cyfradd TEA menywod yng Nghymru, sef 4.4 y cant, yn llai na hanner y gyfradd i ddynion, sef 9.4 y cant; cymhareb y DU oedd 50 y cant. Nid oedd y gyfradd i fenywod yn sylweddol wahanol i amcangyfrifon y DU, sef 5.2 y cant i fenywod a 10.5 y cant i ddynion.**
- **Nid oedd gwahaniaethau sylweddol yng nghyfraddau TEA oedolion ifanc rhwng 18 a 29 oed a phobl 30-64 oed. Fodd bynnag, roedd gweithgarwch entrepreneuraidd yn sylweddol is ar gyfer pobl 45-64 oed na'r rhai 25-34 oed yng Nghymru ac yn y DU yn ei chyfanrwydd.**
- **Roedd agweddau entrepreneuraidd yn gyson â'r rhai a adroddwyd yn 2017. Ychydig o dan ddwy ran o bump o'r boblogaeth o oedran gweithio a oedd yn credu bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i gychwyn busnes ac nid oedd y ffigur hwn yn sylweddol wahanol i ffigur y DU.**
- **Roedd canran yr unigolion nad oeddynt yn entrepreneuriaid o oedran gweithio yng Nghymru a welodd gyfleoedd ond bod arnynt ofn cychwyn busnes rhag ofn y byddai'n methu hefyd yn gymharol sefydlog ar tua 40 y cant. Roedd y ffigur yn debyg i un y DU.**
- **Y gwahaniaeth allweddol pennaf mewn agweddau rhwng Cymru a'r DU yw'r gyfran o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid sy'n credu bod yna gyfleoedd cychwyn busnes da o fewn y 6 mis nesaf, sef dim ond 33 y cant yng Nghymru o'i gymharu â 40 y cant yn y DU.**

- **Mae disgwyl i tua 7 y cant o oedolion nad ydynt yn entrepreneuriaid o oedran gweithio yng Nghymru gychwyn busnes o fewn y tair blynedd nesaf, sy'n sylweddol is na chyfradd y DU, sef 9 y cant.**

# Cefndir

Mae Monitor Entrepreneuriaeth y Byd (GEM) yn brosiect rhyngwladol sy'n ceisio darparu gwybodaeth am dirwedd entrepreneuraidd gwledydd seiliedig ar yr egwyddorion canlynol. Yn gyntaf, mae ffyniant economi'n dibynnu'n fawr ar sector entrepreneuriaeth dynamig. Yn ail, mae capasiti entrepreneuraidd economi'n cynnwys unigolion o bob grŵp mewn cymdeithas sydd â'r gallu a'r ysgogiad i gychwyn busnesau, ac mae'n galw am ganfyddiadau cymdeithasol positif ynghylch entrepreneuriaeth. Yn drydydd, mae entrepreneuriaeth twf uchel yn gyfrannwr allweddol i gyflogaeth newydd mewn economi, ac mae cystadleurwydd cenedlaethol yn dibynnu ar fentrau entrepreneuraidd arloesol a thrawsffiniol.

Mae Llywodraeth Cymru'n noddi elfen Gymreig y prosiect ymchwil GEM UK. Mae symbylu entrepreneuriaeth yn dal i fod yn her bwysig i'r rhanbarth ac mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd o ran sicrhau ei bod wedi'i hymgorffori o fewn ei gweithgareddau craidd. Dyma'r unfed flwyddyn ar bymtheg i Lywodraeth Cymru gymryd rhan yn GEM. O'r 335,000 o ymatebwyr i arolygon GEM UK ar gyfer y cyfnod 2002-2018, mae bron i 62,000 o ymatebwyr yn dod o Gymru. Erbyn hyn mae gan Gymru un o'r cronfeydd data mwyaf ar agweddau, gweithgarwch a dyheadau entrepreneuraidd o blith gwledydd cartref y DU ar gyfer y cyfnod hwn. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynnal dadansoddiad tuedd ar gyfer is-boblogaethau pwysig yng Nghymru, megis menywod, pobl ifanc neu bobl hŷn.

Defnyddir y canlyniadau o ddadansoddiad data GEM fel dangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol o gwmpas y byd. Hefyd maent yn galluogi i gymariaethau gael eu gwneud â rhanbarthau eraill y DU a gwledydd eraill sy'n cymryd rhan yn GEM. Yn gyffredinol, mae gallu unigryw GEM i ddarparu gwybodaeth am dirwedd entrepreneuraidd gwledydd mewn cyd-destun byd-eang yn golygu bod ei ddata'n adnodd angenrheidiol ar gyfer unrhyw ymgais ddifrifol i astudio ac olrhain ymddygiad entrepreneuraidd.

Mae'n bwysig ein bod yn deall penderfynyddion entrepreneuriaeth cam cynnar yn well, oherwydd mae tystiolaeth i awgrymu cysylltiad rhwng cyfraddau uwch o entrepreneuriaeth a

ffyniant economaidd cyffredinol, yn enwedig mewn economïau a ysgogir gan arloesedd megis Cymru.

## Sut mae GEM yn Mesur Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Mae GEM yn creu mynegai o weithgarwch entrepreneuriaeth cam cynnar (a elwir yn TEA) trwy ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- Cynhelir arolwg ffôn o hapsampl o'r boblogaeth o oedolion rhwng mis Mai a mis Medi.
- Y mynegai TEA yw cyfanswm yr ymatebwyr hynny a ddosberthir fel entrepreneuriaid cychwynnol[1] ac entrepreneuriaid cwmni newydd[2].

Nid yw'r mynegai TEA yn mesur yr holl weithgarwch entrepreneuraidd ac nid yw'n seiliedig ar arolwg o endidau busnes. Mae'n mesur nodweddion unigolion entrepreneuraidd a'r mathau o endidau maent yn eu sefydlu. Oherwydd hynny mae'n fesur unigryw y gellir ei gymharu ar lefel ryngwladol o duedd ddiwylliannol cenedl, neu ranbarth, i fod yn entrepreneuraidd.

Un ffordd o wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o weithgarwch entrepreneuraidd yw i ba raddau mae'r gweithgarwch yn seiliedig ar reidrwydd (h.y. nad oes unrhyw ddewisiadau amgen gwell ar gyfer gwaith) neu gyfle (lle gallai entrepreneuriaid fod yn manteisio ar y potensial ar gyfer creu marchnad newydd).

Ers 2011 mae gweithgarwch entrepreneuraidd ymhlith cyflogeion wedi'i fesur hefyd. Erbyn hyn gwyddom y gall diwylliant a rheoliadau effeithio ar sut mynegir gweithgarwch entrepreneuraidd o fewn cenhedloedd. Mewn gwledydd lle mae gan entrepreneuriaid lawer llai o fynediad at nawdd cymdeithasol na chyflogeion, er enghraifft, mae gweithgarwch entrepreneuraidd yn tueddu i gynnwys cyfran uwch o weithgarwch entrepreneuraidd

[1] Y cyfnod cynllunio gweithredol lle mae'r entrepreneur wedi gwneud rhywbeth yn ystod y 12 mis diwethaf i helpu i gychwyn busnes newydd, busnes y bydd ef/hi yn berchen ar o leiaf ran ohono, ac nad yw wedi talu cyflogau nac incwm arall i'r perchnogion yn y 3 mis diwethaf.

[2] Diffinnir yr ail gyfnod fel un o 4 i 42 mis wedi i'r fenter newydd ddechrau darparu incwm i'r perchnogion. Cyfeirir at entrepreneuriaid sydd o leiaf yn berchen ar ran o fusnes newydd neu'n rheoli busnes newydd sydd wedi bod yn talu rhyw fath o incwm i'r perchnogion am o leiaf 4 a dim mwy na 42 mis fel entrepreneuriaid cwmni newydd.

cyffredinol[3]. Mae ystyried TEA ac EEA gyda'i gilydd yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr o weithgarwch entrepreneuraidd pob gwlad.

Yn ogystal â gweithgarwch, mae'r arolwg GEM yn gofyn i'r holl ymatebwyr am eu hagweddau at weithgarwch entrepreneuraidd, ac yn gofyn i entrepreneuriaid am eu dyheadau.

Esbonnir y fethodoleg, meintiau samplau a systemau pwysoli a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg poblogaeth oedolion GEM UK 2018 yn fanylach yn yr adroddiad GEM UK 2018 (www.gemconsortium.org). Cyflwynwyd newid pwysig yng nghynllun y sampl yn 2010 pan ddewiswyd 10 y cant o ymatebwyr ym mhob Rhanbarth Swyddfa'r Llywodraeth (GOR) ar hap o aelwydydd â ffonau symudol ond nid llinellau tir. Yn 2015, cynyddwyd hyn i 20 y cant, yn unol ag amcangyfrifon diweddar o gyfran yr aelwydydd â ffôn symudol yn unig yn y DU.


Mae'r adroddiad dilynol yn cyflwyno crynodeb o'r prif ganlyniadau, a themâu allweddol sy'n codi o'r arolwg GEM yn 2018 a'r dadansoddiad o'r un flynedd ar bymtheg o ddata GEM (2002-18).

[3] Fforwm Economaidd y Byd (WEF) a GEM Global (2016) "Europe's Hidden Entrepreneurs: Entrepreneurial Employee Activity and Competitiveness in Europe". http://www3.weforum.org/docs/WEF_Entrepreneurship_in_Europe.pdf

# Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar (Mynegai TEA)

Cyfradd entrepreneuriaeth cam cynnar yng Nghymru yn 2018 yw 6.9 y cant, nad yw'n wahanol iawn i'r amcangyfrif o 6.3 y cant yn 2017. Nid yw cyfradd 2018 yn sylweddol wahanol i gyfradd Lloegr ychwaith (8.1%) ac amcangyfrif y DU sef 7.9 y cant (Ffigur 1).

Yn gyffredinol, mae cyfradd TEA o 6.9 y cant yng Nghymru yn gyfwerth i oddeutu un o bob pedwar ar ddeg o oedolion 18-64 oed, neu oddeutu 128,000 o unigolion, 54 y cant ohonynt yn y camau cynnar iawn o gychwyn busnes (entrepreneuriaid cychwynnol 3.7%) a'r gweddill yw'r rhai hynny oedd â busnes newydd a oedd rhwng 3 a 42 mis oed.




**% y Boblogaeth Oedolion 18-64 oed**


Lloegr Cymru Yr Alban Gogledd Iwerddon Y DU

**Ffigur 1: Cyfanswm gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar (TEA) yng Ngwledydd Cartref y DU 2018**
(Ffynhonnell: GEM APS)

Fel y dengys Ffigur 2a, arhosodd y gyfradd o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar yng Nghymru a'r DU yn gymharol sefydlog rhwng 2004 a 2010, sef oddeutu 6 y cant. Ers hynny mae'r cyfraddau hynny wedi amrywio a gwahaniaethu'n sylweddol. Fe wnaeth gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar yng Nghymru gyrraedd uchafbwynt o 8.1 y cant yn 2011 cyn

gostwng i'r gyfradd gyfartalog rhediad hir yn 2013. Roedd hi'n ymddangos bod y bwlch rhwng cyfraddau Cymru a'r DU, a agorodd yn 2017, yn cau yn 2018, gan nad oedd y cyfraddau'n sylweddol wahanol bellach.


Yn 2018 cyfradd gweithgarwch entrepreneuraidd cychwynnol yng Nghymru oedd 3.7 y cant, sy'n cyfateb i gyfradd 2017. Nid oedd y gyfradd perchenogaeth busnes newydd o 3.2% yn sylweddol wahanol chwaith i'r gyfradd o 2.7 y cant yn 2017. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol yn y cyfraddau entrepreneuriaeth cychwynnol a newydd yn y DU rhwng 2017 a 2018 ychwaith; newidiodd y gyfradd gychwynnol o 4.8 y cant i 4.0 y cant a'r gyfradd perchennog busnes newydd o 4.1 y cant i 4.0 y cant.




**Cymru Y DU**
**% y Boblogaeth Oedolion 18-64 oed**

**Ffigur 2a: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yng Nghymru a'r DU (2002-18)** (Ffynhonnell: GEM APS)


Hyd at 2011 roedd cyfraddau TEA Dwyrain a Gorllewin Cymru wedi tueddu i ddilyn tueddiadau tebyg (Ffigur 2b). Ers hynny, mae yna fwlch cyffredinol rhwng y ddau er nad yw'r cyfraddau'n sylweddol wahanol. Mae'r cyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru'n gyffredinol yn cael eu sbarduno'n bennaf gan y gweithgarwch yn y Gorllewin, gyda'r duedd yn y Dwyrain yn cyfateb yn agosach i'r DU. Yn 2018, fodd bynnag, roedd y gyfradd yn y Gorllewin yn cyfateb i gyfradd y DU.




Dwyrain Cymru Gorllewin Cymru Cymru Y DU
**% y Boblogaeth Oedolion 18-64 oed**

**Ffigur 2b: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn Nwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru a'r DU (2002-17)** (Ffynhonnell: GEM APS)

Roedd TEA a ysgogwyd gan reidrwydd yng Nghymru yn 2018 yn 1.3 y cant, nad oedd yn sylweddol wahanol i'r gyfradd o 0.9 y cant yn 2017. Roedd TEA a ysgogwyd gan gyfle yn 5.5 y cant, eto bron yn ddigyfnewid o'r amcangyfrif o 5.1 y cant yn 2017. Roedd TEA a ysgogwyd gan angen fel cyfran o'r holl TEA yn 19 y cant yng Nghymru, a oedd yn gyfran uwch na'r DU, sef 14 y cant (Ffigur 3).





**Cyfle** **Rheidrwydd** **Arall**
Lloegr Cymru Yr Alban Gogledd Iwerddon Y DU

**Ffigur 3: Entrepreneuriaeth Cyfle a Rheidrwydd yng Ngwledydd Cartref y DU yn 2017** (Ffynhonnell: GEM APS)

# Pwy yw'r Entrepreneuriaid yng Nghymru?

**Rhyw:** Mae gan ddynion gyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar uwch na menywod ar y cyfan; yng Nghymru roedd cyfradd TEA dynion yn 9.4 y cant yn 2018 o gymharu â 4.4 y cant i fenywod. Yn 2018 roedd cyfraddau TEA dynion ledled y DU a'r gwledydd cartref yn sylweddol uwch nag ar gyfer menywod (Ffigur 4). Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn y cyfraddau dynion a menywod ar draws gwledydd y DU.

Ar y cyfan mae'r gymhareb gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar ar gyfer menywod o gymharu â dynion oddeutu 50 y cant yn y DU. Roedd y gymhareb yng Nghymru yn is na hyn, sef 47 y cant yn 2018. Cymhareb yr Alban oedd 51 y cant gyda chymhareb Gogledd Iwerddon yn 32 y cant. Mae'n bosibl y bydd cymarebau blynyddol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn felly mae'n well edrych arnynt dros y tymor hwy. Mae'r cymarebau cyfartalog tymor hir dros y cyfnod 2002 i 2018 yn awgrymu bod dynion ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn entrepreneuriaid cam cynnar na menywod gyda chymhareb o 52 y cant yng Nghymru, 49 y cant yn Lloegr a 54 y cant yn yr Alban. Mae'r gymhareb TEA menywod i ddynion yng Ngogledd Iwerddon yn is, sef dim ond 38 y cant yn sgil cyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd isel ymysg menywod yn hanesyddol.





**Dynion** **Menywod**

**% o Berchnogion Busnesau Newydd neu Egin Fusnessau**

**Ffigur 4: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn ôl Rhyw yng Ngwledydd Cartref y DU yn 2018** (Ffynhonnell: GEM APS)


Fe wnaeth y gyfradd TEA ar gyfer menywod ddisgyn o'i huchafbwynt uchaf erioed o 6.1 y cant yn 2011 i'w chyfartaledd rhediad hir o oddeutu 4.0 y cant yn 2012. Er i'r gyfradd gynyddu'n raddol tan 2016, mae wedi gostwng yn ôl i'r cyfartaledd rhediad hir ers hynny (Ffigur 5). Roedd y gyfradd TEA dynion yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol hefyd o 10.2 y cant i 6.5 y cant rhwng 2011 a 2013 ond mae wedi sefydlogi ar oddeutu 9 y cant ers hynny. Mae Ffigur 5 yn dangos bod cyfraddau TEA menywod yng Nghymru'r un fath â rhai'r DU tan 2010 ond bod bwlch wedi ymddangos wedi hynny.




**Cymru Y DU**
**% y Boblogaeth Oedolion 18-64 oed**

**Ffigur 5: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yng Nghymru a'r DU, 2002-2018** (Ffynhonnell: GEM APS)

**Oedran**: Yn y DU, unigolion rhwng 25-34 oed sy'n arddangos y cyfraddau uchaf o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar. Yn 2018 yn y DU roedd gan y rhai 45-64 oed gyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd sylweddol is na'r rhai 25-54 oed. Roedd hyn yn wir yng Nghymru hefyd. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd y gyfradd TEA ar gyfer pobl 55-64 oed yn sylweddol is hefyd nag ar gyfer y rhai 25-34 oed. Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y cyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd ar draws y bandiau oedran yn Lloegr a'r Alban (Ffigur 6).





**18-24 oed 25-34 oed 35-44 oed 45-54 oed 55-64 oed**
**% o'r Grŵp Oedran**
**Lloegr Cymru Yr Alban Gogledd Iwerddon Y DU**

**Ffigur 6: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn ôl Oedran yng Ngwledydd Cartref y DU, 2018** (Ffynhonnell: GEM APS)

Ers sawl blwyddyn, mae gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru wedi bod yn symud tuag at genhedlaeth iau yng Nghymru, er enghraifft, roedd y cyfraddau TEA ar gyfer pobl ifanc 18-24 oed yn ystod cyfnod y dirwasgiad yn arbennig o uchel, gan gyrraedd uchafbwynt o 10 y cant yn 2011 (Ffigur 7). Mae'r gyfradd wedi gostwng yn ôl i oddeutu 7 y cant ers hynny. Mewn cyferbyniad i'r cyfraddau cymharol sefydlog yng Nghymru'n ddiweddar, mae cyfradd y DU wedi bod yn fwy amrywiol yn ddiweddar ac yn 2018 mae wedi codi i'w gyfradd uchaf erioed, sef 8.4 y cant.

O gymharu â'r DU, mae'r gyfradd uwch o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar ymhlith pobl ifanc 18-24 oed yng Nghymru yn ystod y dirwasgiad yn awgrymu eu bod wedi wynebu hinsawdd economaidd anoddach, â'r diffyg swyddi'n golygu bod rhaid mynd yn hunangyflogedig, a bod y rheidrwydd hwnnw wedi diflannu wrth i'r economi adfer. Fel arall, gallai adlewyrchu'r ddarpariaeth gynyddol o weithgareddau entrepreneuriaeth ieuenctid gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn.





**Cymru Y DU**

**Ffigur 7: Tuedd yn y Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru a'r DU, 2002 i 2018** (Ffynhonnell: GEM APS)


Dadansoddiad a allai fod yn fwy defnyddiol yw asesu sut mae'r gyfradd TEA wedi newid yn y grŵp oedran 18 i 29 (lle ymddengys fod toriad naturiol o ran data gweithgarwch GEM y DU) a chymharu hynny â'r grŵp oedran 30 i 64. Mae Ffigurau 8 a 9 yn dangos, o gymharu â'r gwledydd cartref eraill, bod y gyfradd TEA ar gyfer oedolion ifanc yng Nghymru yn gymharol uchel yn ystod y dirwasgiad, ond ers 2013 bu tuedd am i lawr. Yn 2018 mae cyfraddau ar draws y gwledydd cartref yn debyg iawn.

Mewn cyferbyniad, roedd y gyfradd TEA ymhlith pobl rhwng 30 a 64 oed yng Nghymru yn sylweddol is na'r gyfradd ar gyfer Lloegr, a chyfartaledd y DU, yn ystod y cyfnod 2012-14. Nid yw'n sylweddol wahanol i gyfradd y DU na'r gwledydd cartref yn 2018.




**Lloegr Cymru Yr Alban Gogledd Iwerddon Y DU**
**% o'r rai 18-29 oed**

**Ffigur 8: Y duedd mewn Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn y Gwledydd Cartref ar gyfer pobl 18 i 29 oed, 2002 i 2018** (Ffynhonnell: GEM APS)





**Lloegr Cymru Yr Alban Gogledd Iwerddon Y DU**

**Ffigur 9: Y duedd mewn Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn y Gwledydd Cartref ar gyfer pobl 30 i 64 oed, 2002 i 2018** (Ffynhonnell: GEM APS)

**Addysg**: Mae gan raddedigion yn y DU gyfraddau uwch o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar na phobl heb radd fel arfer. Yn 2018 roedd y gyfradd TEA i raddedigion y DU yn 9.8 y cant, a oedd yn sylweddol uwch na'r gyfradd o 6.5 y cant i bobl heb radd (Ffigur 10). Nid oedd y naill gyfradd na'r llall yn wahanol iawn i'r cyfraddau yn 2017.

Y gyfradd TEA ar gyfer graddedigion Cymru yn 2018 oedd 7.9 y cant o gymharu â 6.2 y cant ar gyfer pobl heb radd; nid oedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol. Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y naill gyfradd na'r llall o gymharu â 2017 ychwaith. Lloegr oedd yr unig wlad gartref lle'r oedd y cyfraddau TEA ar gyfer graddedigion yn sylweddol uwch na'r un ar gyfer pobl heb radd yn 2018.




**heb radd** **â gradd**

**% o'r boblogaeth oedolion 18-64 oed**

**Ffigur 10: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn y Gwledydd Cartref yn ôl Statws Gradd, 2018** (Ffynhonnell: GEM APS)


# Agweddau a Bwriad Entrepreneuraidd

Mae GEM wedi datblygu nifer o ddatganiadau agweddol sy'n darparu dirprwy ar gyfer potensial entrepreneuraidd mewn gwlad/rhanbarth. Maent yn cynnwys adnabod person sydd wedi cychwyn busnes yn y ddwy flynedd diwethaf, canfyddiad o gyfleoedd da ar gyfer cychwyn busnes, hunangred o ran meddu ar y sgiliau perthnasol i sefydlu busnes a mynychder ofn methu fel rhwystr i sefydlu busnes.

Mae data agweddol GEM yn cael ei adrodd yma ar y gyfran honno o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid yn barod gan y gallai unigolion sydd eisoes yn entrepreneuriaid deimlo bod rhaid iddynt ddarparu atebion positif yn yr Arolwg Poblogaeth Oedolion (APS).

Yng Nghymru yn 2018, mae 29 y cant o unigolion nad ydynt yn entrepreneuriaid yn dweud eu bod yn adnabod entrepreneur, sydd oddeutu'r un gyfran â'r DU gyfan (Ffigur 11), a heb fod yn wahanol iawn i flynyddoedd blaenorol. Mae tua 37 y cant o bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yn credu bod ganddynt y sgiliau i sefydlu busnes, eto'n debyg i gyfartaledd y DU o 40 y cant.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, y prif wahaniaeth rhwng Cymru a'r DU yw'r gyfran sylweddol is o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n credu bod cyfleoedd da i gychwyn busnes yn eu hardal yn y chwe mis nesaf, 33 y cant yng Nghymru o gymharu â 40 y cant yn y DU. Roedd cyfran y boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n gweld cyfleoedd cychwyn busnes da ond sy'n dweud y byddai ofn methu yn eu hatal rhag dechrau busnes yn 42.1 y cant yn 2018, ffigur digon tebyg i un 2017. Roedd cyfradd y DU o 42.8 y cant heb newid ychwaith ers y flwyddyn flaenorol, ac nid yn sylweddol wahanol i Gymru.




**Cymru Y DU**
**% o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid**

Rwy’n adnabod rhywun sydd wedi dechrau busnes yn y ddwy flynedd ddiwethaf

Mae cyfleoedd da i ddechrau busnes lle dwi’n byw yn y chwe mis nesaf

Mae gen i’r sgiliau, y wybodaeth a’r profiad i ddechrau busnes


Byddai ofn methu yn fy atal rhag dechrau busnes (i’r rhai sy’n cytuno bod cyfleoedd da i ddechrau busnes)

**Ffigur 11: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepreneuraidd yng Nghymru a’r DU 2018** (Ffynhonnell: GEM APS)

Mae Ffigur 12 yn arddangos yr agweddau tuag at entrepreneuriaeth pan y’i cyfyngir i bobl 18-24 oed yn unig. Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol mewn agweddau rhwng Cymru a’r DU ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Wrth gymharu agweddau pobl ifanc yn erbyn yr holl bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid (fel y dangosir yn Ffigur 11) mae cyfran sylweddol is o bobl ifanc yng Nghymru o’r farn bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a’r profiad i ddechrau busnes, sef 27.8 y cant o gymharu â 37.2 y cant ar gyfer y boblogaeth ehangach nad ydynt yn entrepreneuriaid. Roedd hyn yn wir yn y DU hefyd gyda dim ond 31.7 y cant o bobl ifanc yn cytuno â’r datganiad hwn o gymharu â 40.1 y cant o’r holl bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yn y DU.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng agweddau pobl ifanc a’r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid ehangach ar gyfer y mesurau eraill.




**Cymru** **Y DU**

**% o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid**

Rwy'n adnabod rhywun sydd wedi dechrau busnes yn y ddwy flynedd ddiwethaf


Mae cyfleoedd da i ddechrau busnes lle dwi'n byw yn y chwe mis nesaf

Mae gen i'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i ddechrau busnes

Byddai ofn methu yn fy atal rhag dechrau busnes (i'r rhai sy'n cytuno bod cyfleoedd da i ddechrau busnes)

**Ffigur 12: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepreneuraidd ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru a'r DU 2018 (Ffynhonnell: GEM APS)**

Dengys Ffigur 13 bod ofn methu wedi cynyddu'n fwy sydyn yng Nghymru nag yn y gwledydd cartref eraill yn ystod y dirwasgiad, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae wedi sefydlogi i fod yn gyson â'r lleill. Yn 2018 nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y cyfraddau ofn methu ymhlith y gwledydd cartref.





**Lloegr** **Cymru** **Yr Alban** **Gogledd Iwerddon** **Y DU**

**% o'r boblogaeth 18-64 oed nad ydynt yn entrepreneuriaid sy'n gweld cyfleoedd ond yn ofn methu**

**Ffigur 13: Ofn Methu ymhlith y rhai sy'n gweld Cyfleoedd yng Ngwledydd Cartref y DU, 2002-18 (Ffynhonnell: GEM APS)**


Yn arolwg 2018, fe wnaeth 33.2 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru gytuno bod cyfleoedd da i gychwyn busnes yn eu hardal leol yn y chwe mis nesaf, o gymharu â 39.5 y cant yn y DU. Nid oedd y naill na'r llall yn wahanol iawn i'w hamcangyfrifon yn 2017, ac er bod y duedd ar i fyny yng Nghymru a'r DU, mae'r bwlch ystadegol sylweddol o ran canfyddiad o gyfle rhwng Cymru a'r DU yn dal i fodoli (Ffigur 14).




Cymru Y DU
**% o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid**

**Ffigur 14: Canfyddiad o Gyfleoedd Cychwyn Busnes yng Nghymru a'r DU, 2002-18** (Ffynhonnell: GEM APS)

Roedd y gyfran o oedolion o oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n disgwyl cychwyn busnes o fewn y tair blynedd nesaf yn 6.8 y cant yn 2018 (Ffigur 15). Roedd amcangyfrif y DU yn sylweddol uwch, sef 8.5 y cant yn 2018. Nid oedd y naill gyfradd na'r llall yn sylweddol wahanol i werthoedd 2017. Mae'n dra phosib bod y cynnydd blaenorol yn y cyfraddau bwriad hyn yn ystod y dirwasgiad yn adlewyrchu rhesymau'n ymwneud â rheidrwydd; yn y blynyddoedd diwethaf mae'n debygol, yn wyneb economi sy'n gwella, bod rhagolygon cychwyn busnes yn adlewyrchu mwy o entrepreneuriaeth seiliedig ar gyfle.





**Cymru** **Y DU**

**% o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid**

**Ffigur 15: Disgwyliadau Cychwyn Busnes y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Nghymru a'r DU ymhlith y boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid, 2002-18** (Ffynhonnell: GEM APS)

Yn 2018, roedd cyfran y dynion nad oeddent yn entrepreneuriaid gweithredol yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn bwriadu cychwyn busnes yn y tair blynedd nesaf, sef 8.5 y cant, yn sylweddol uwch na'r gyfradd ar gyfer menywod, sef 5.0 y cant (Ffigur 16). Mae hyn yn gyfystyr â chymhareb menywod i ddynion o 59 y cant, sy'n uwch nag ar gyfer entrepreneuriaeth cam cynnar yng Nghymru. Mae'r gymhareb yn cymharu â 51 y cant yn Lloegr, 61 y cant yn yr Alban a 69 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Yn gyffredinol, nid oedd bwriadau cychwyn busnes ar gyfer dynion a menywod yn y gwledydd cartref yn wahanol iawn i rai 2017.




**dynion menywod**
**% o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid 18-64 oed**

**Ffigur 16: Disgwyliadau Cychwyn Busnes y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Ngwledydd Cartref y DU yn ôl Rhyw, 2018** (Ffynhonnell: GEM APS)

# Rhuglder yn y Gymraeg a Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn 2018 yng nghyfraddau TEA y rhai hynny yng Nghymru oedd yn rhugl eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig (9.5%); a allai siarad a deall rhywfaint o Gymraeg (7.2%), a’r rhai hynny nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg neu fawr ddim (6.2%). Nid oedd y cyfraddau’n sylweddol wahanol i rai 2017.

# Sylwadau Cloi

Mae gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru yn 2018 wedi parhau i fod yn gryf gyda'r gyfradd TEA a bwriad cychwyn busnes oddeutu 7 y cant yr un. Ynghyd â gweithgarwch entrepreneuraidd, mae agweddau tuag at entrepreneuriaeth yn gymharol iach hefyd. Mae dros draean o bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yn dweud bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i gychwyn busnes ac mae ychydig o dan 30 y cant yn adnabod entrepreneur sydd wedi cychwyn busnes o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf. Nid yw ofn methu yn wahanol i weddill y DU; ar ei uchaf yn 2011 roedd tua hanner y rhai yng Nghymru a oedd wedi nodi cyfleoedd sefydlu busnes yn datgan y byddai ofn methu yn eu hatal rhag cychwyn busnes. Yn 2018 mae'r ffigur hwn tua dau o bob pump. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn dangos hyder cynyddol ymysg y boblogaeth o ran gallu i gychwyn busnes llwyddiannus a'r amodau i wneud hynny.

Er gwaethaf yr agweddau cadarnhaol, mae yna rai problemau o hyd. Mae gweithgarwch entrepreneuraidd yn hanner y gyfradd ymhlith menywod o gymharu â dynion. O safbwynt agweddau, mae cyfran lai o bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru nag yn y DU sy'n credu bod yna gyfleoedd cychwyn busnes da yn lleol o fewn y chwe mis nesaf. Mae'r gyfradd ar gyfer Cymru wedi cynyddu'n sylweddol ers 2010 ond mae'n gyson is na'r gyfradd ar gyfer y DU. Efallai fod y canfyddiad bod yna lai o gyfleoedd yn adlewyrchu problemau'n ymwneud â galw lleol gwahanol yng Nghymru neu wahaniaeth yn yr amodau sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu busnes llwyddiannus.

Yn ystod y dirwasgiad, roedd symudiad tuag at fwy o weithgarwch entrepreneuraidd ymhlith y grwpiau oedran iau yng Nghymru, yn rhannol oherwydd rhesymau rheidrwydd a mwy o ffocws gan y Llywodraeth ar entrepreneuriaeth ieuenctid. Mae'r gyfradd wedi gostwng ers hynny ac yn 2018 nid oes gwahaniaeth yng nghyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd pobl 18-29 oed ar draws y gwledydd cartref. Hefyd, mae cyfran is o bobl iau yn teimlo bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i gychwyn busnes o gymharu â'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid ehangach.

Yn gyffredinol, mae'r rhagolygon ar gyfer gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru yn galonogol. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud i gau'r bwlch gyda'r DU o ran cydnabod

cyfleoedd. Byddai mesurau i gynyddu entrepreneuriaeth ymysg menywod a phobl ifanc hefyd yn helpu i hybu'r economi a meithrin arloesedd yn y rhanbarth.

# Ymwadiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar ddata a gasglwyd gan gonsortiwm GEM a thîm GEM UK; yr awduron sy'n gwbl gyfrifol am ddadansoddi a dehongli'r data.

**I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect GEM UK, cysylltwch â**

Dr Karen Bonner
Queen's Management School
Queen's University
Riddel Hall, 185 Stranmillis Road
Belfast, BT9 5EE
E-bost: k.bonner@qub.ac.uk

QUEEN'S UNIVERSITY BELFAST

Yr Athro Mark Hart
Economics, Finance and Entrepreneurship Group
Aston Business School, Aston University
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET
E-ebost: mark.hart@aston.ac.uk

Aston Business School